**Cronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru 2018-21 - Canllawiau**

**Diben**

Caiff y Gronfa Trawsnewid ei thargedu at brosiectau blaenoriaethol ac at fodelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn cyflymu eu datblygiad a dangos eu gwerth.

Bydd y Gronfa Trawsnewid yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar fodelau sy'n gwneud cynnydd cynnar ar y canlynol: cysoni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor; darparu iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol a sylfaenol yn lleol; a gwasanaethau a gweithgareddau atal integredig newydd.

(Ffynhonnell: Cymru Iachach: Ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol, t21-22)

**Cwmpas**

Bwriedir i'r Gronfa fodloni costau ychwanegol â therfyn amser sydd ynghlwm wrth gyflwyno modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n anelu at gyflymu'r gwaith o fabwysiadu a datblygu ffyrdd newydd o weithio y bwriedir iddynt ddisodli neu ailgyflunio gwasanaethau presennol. Yn benodol bwriedir i'r Gronfa ddilysu yn gyflym gallu modelau newydd i dyfu yn unol â'r anghenion (eu gallu i ehangu o ardal leol i ranbarth, neu o ranbarth i ranbarthau eraill) ac i brofi a ydynt yn 'drawsnewidiol' (yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, yn newid neu'n disodli dulliau gweithredu cyfredol yn hytrach nag ychwanegu haen atynt).

Bydd y Gronfa'n darparu cyllid refeniw i gefnogi 'prosiectau trawsnewid' a fydd yn cefnogi cyflwyno modelau newydd. Ni fydd y Gronfa'n cefnogi costau ychwanegol darparu modelau newydd yn gylchol. Bydd yn cefnogi costau sy'n ymwneud yn benodol â'r 'Prosiect Trawsnewid', er enghraifft:

- Amser staff - rhyddhau staff i ddatblygu a phrofi modelau newydd o ofal, gan gynnwys llenwi bylchau ar gyfer rolau sy'n bodoli eisoes yn ôl yr angen.
- Seilwaith rhaglenni – ar lefel genedlaethol a lleol, ond yn gymesur â graddfa'r newid
- Seilwaith ffisegol - lle bo modd o gyllid refeniw, yn enwedig cymhwyso TGCh.
- Costau rhedeg dwbl - i gefnogi'r pontio o fodelau gofal cyfredol i fodelau newydd.

Bydd y Gronfa'n darparu cyllid o hyd at £100m tan 31 Mawrth 2021.

**Dewis a blaenoriaethu prosiectau**

Anogir Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu datganiadau o ddiddordeb sydd eisoes wedi'u rhannu gyda Llywodraeth Cymru, er mwyn cyflwyno cynigion i'w hystyried cyn gynted â phosibl. Caiff cynigion eu hystyried trwy'r Rhaglen Drawsnewid, ar sail dreigl, gydag amserlen arfaethedig o ddim mwy na 3-4 wythnos.

Sêl bendith RPB: Bydd angen i'r holl gynigion ar gyfer prosiectau gael eu cyflwyno gyda sêl bendith o leiaf un Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Wrth roi sêl bendith i brosiectau dylai RPBs eu sicrhau eu hunain:

- bod gan gynnig y prosiect gwmpas, graddfa ac uchelgais priodol
- bod gan gynnig y prosiect cynllun digon cadarn ac argyhoeddedig

- bod gan gynnig allu a chapasiti digonol o ran arweinyddiaeth

- bod cynnig wedi rhoi cynnig ystyrlon i gynaliadwyedd a datblygu pellach yn ystod y cyfnod cyllido trawsnewid.

Y Meini Prawf ar gyfer Dethol: Caiff y deg egwyddor gynllunio genedlaethol a nodir yn *Cymru Iachach* eu defnyddio fel y prif feini prawf ar gyfer dewis a blaenoriaethu cynigion. Rhaid i gynigion fynd i'r afael â'r ddwy egwyddor olaf (yn gallu datblygu, yn drawsnewidadwy), ac o leiaf un arall. Caiff prosiectau sy'n llwyddo i fynd i'r afael ag egwyddorion cynllunio lluosog eu blaenoriaethu. Y deg egwyddor graidd yw:

- Atal ac ymyrryd yn fuan - gweithredu i alluogi ac annog iechyd a llesiant da gydol oes; disgwyl a rhagweld iechyd a llesiant gwael.

- Diogelu - nid yn unig gofal iechyd nad yw'n gwneud unrhyw niwed, ond galluogi pobl i fyw'n ddiogel o fewn teuluoedd a chymunedau, diogelu pobl rhag perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed o fath arall.

- Annibyniaeth - helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant, bod yn gadarn ac yn annibynnol am gyfnod hwy, yn eu cartrefi a'u hardaloedd eu hunain, gan gynnwys cyflymu adferiad ar ôl triniaeth a gofal, a helpu i reoli cyflyrau hirdymor eu hunain.

- Llais - grymuso pobl â'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i ddeall a rheoli eu hiechyd a'u llesiant, i wneud penderfyniadau am ofal a thriniaeth ar sail 'beth sy'n bwysig' iddyn nhw, a chyfrannu at wella ein trefn system gyfan o iechyd a gofal; cyfathrebu clir, syml ac amserol a chysylltu mewn ffordd briodol yn ôl oedran a lefel dealltwriaeth.

- Personol - gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau'r unigolyn, gan gynnwys yn yr iaith a ffefrir; meddygaeth fanwl; cynnwys pobl mewn penderfyniadau am eu gofal a thriniaeth; helpu pobl i reoli eu gofal a'u canlyniadau eu hunain.

- Di-dor - gwasanaethau a gwybodaeth sy’n llai cymhleth ac wedi'u cydlynu'n well i'r unigolyn; integreiddio proffesiynol, cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau a darparwyr i osgoi trosglwyddiadau rhwng gwasanaethau sy'n creu ansicrwydd i'r unigolyn.

- Gwerth uwch - sicrhau gwell canlyniadau a gwell profiad i bobl am gost is; gofal a thriniaeth sydd wedi'i lunio i gyflawni 'beth sy'n bwysig' ac sy'n cael eu darparu gan y person cywir ar yr adeg gywir; llai o amrywiad a dim niwed.

- Seiliedig ar dystiolaeth - defnyddio ymchwil, dysg a gwybodaeth i ddeall beth sy'n gweithio; dysgu drwy weithio gydag eraill; defnyddio arloesi a gwelliannau i ddatblygu a gwerthuso gwell arfau a ffyrdd o weithio.

- Datblygu - sicrhau bod modd datblygu arfer da o lefel leol i lefel ranbarthol a chenedlaethol, ac allan i dimau a sefydliadau eraill.

- Trawsnewid - sicrhau bod ffyrdd newydd o weithio yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, eu bod yn newid a disodli dulliau presennol, yn hytrach nag ychwanegu haen ychwanegol yn barhaol i'r hyn a wnawn nawr.

Dogfennau Cynigion: Nid oes fformat penodol ar gyfer cynigion prosiectau. Fel canllaw, ni ddylai cynigion prosiectau fod yn fwy na deg tudalen o hyd. Dylai cynigion prosiectau sicrhau eu bod yn cwmpasu'r ystyriaethau allweddol canlynol:

- Disgrifiad clir o gwmpas ac amcanion y prosiect, yn ymwneud â *Cymru iachach* ac ag egwyddorion cynllunio perthnasol

- sefydliad cyflenwi penodol (os nad y RPB ei hun) a fydd yn atebol i'r RPB ac i Lywodraeth Cymru am reoli ariannu a darparu prosiectau

- amserlen fisol yn nodi cerrig milltir a defnyddio adnoddau, gan gynnwys ariannu, drwy gydol oes y prosiect

- sut y caiff y prosiect ei werthuso'n broffesiynol mewn modd amserol, i ystyried tystiolaeth a fydd yn llywio penderfyniadau ynghylch mabwysiadu ehangach, ystyried yn enwedig gwella canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol, gwell gwerth gofal iechyd, a darparu gwasanaethau fforddiadwy.

- sut y bydd y prosiect yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys
    - y rhai sydd â rhan uniongyrchol yn y prosiect (er enghraifft darparwyr gwasanaethau, y cyhoedd a chleifion)
    - 'mabwysiadwyr nesaf' posibl y model neu'r dull newydd (er enghraifft Clystyrau ac RPBs eraill)

- sut y bydd y model newydd yn gynaliadwy ar ôl i'r prosiect trawsnewid gael ei gwblhau.

Hyd y prosiect: Nid yw Cyllid Trawsnewid Llywodraeth Cymru wedi'i gadarnhau y tu hwnt i Fawrth 2020. Anogir cynigion prosiectau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad hwn, er hynny bydd angen i ofynion ariannu yn y dyfodol gael eu hymrwymo'n gadarn gan sefydliadau cyflenwi a phartneriaid er mwyn sicrhau nad yw prosiectau'n methu cael eu cwblhau.

Prosiectau graddedig; Anogir prosiectau i ddatblygu dull 'graddedig' sy'n amlinellu ymlaen llaw sut y caiff modelau eu mabwysiadu'n ehangach ac yn unol â'r amserlen, yn ddarostyngedig i ddilysu megis tystiolaeth o effaith yn erbyn targedau a bodloni cerrig milltir cyflawni. Er enghraifft, anogir prosiectau i nodi 'ail don' o leoliadau sydd eisoes wedi ymrwymo i fabwysiadau'r model, os bydd y mabwysiadu 'ton gyntaf' yn bodloni meini prawf penodedig.

Dosbarthu cyllid: Nid oes dyraniad cymesur o gyllid trawsnewid i ranbarthau daearyddol neu i fathau o fodelau. Bydd y Rhaglen Drawsnewid yn anelu at sicrhau dosbarthiad priodol ledled Cymru, ac i wahanol fathau o fodelau, ond bydd y gallu i wneud hyn yn dibynnu ar gryfder y cynigion a ddaw i law. Bydd y Rhaglen Drawsnewid yn gweithio gyda RPBs a phrosiectau cyflenwi yn ôl yr angen i gefnogi datblygu prosiectau ledled Cymru, gan gynnwys er enghraifft cyllid wedi'i dargedu ar gyfer mabwysiadu 'ail don' mewn rhanbarthau newydd.

**Monitro a Rheoli 'Gweithgar' ar Brosiectau**

Caiff pob cymorth o dan y Gronfa Trawsnewid ei ddyrannu trwy system llythyr dyfarnu grant, gan ddefnyddio telerau ac amodau cyllid a fydd yn gymwys i bob prosiect. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Sefydliad a enwir sy'n gyfrifol am reoli'r cyllid grant, ac unigolyn wedi'i enwi a nodwyd fel arweinydd y prosiect

- Amcanion lefel uchel y cytunir arnynt, cerrig milltir chwarterol, a phroffil ariannu chwarterol y cytunir arno, a dynnir o gynnig y prosiect.

- Adrodd chwarterol rheolaidd i'r RPB a Llywodraeth Cymru ar gyflawni prosiectau

- Presenoldeb pob arweinydd prosiect mewn digwyddiadau rhwydweithio'r gronfa trawsnewid chwe-misol i rannu arferion da

- Darparu diweddariad monitro a rheoli cryno i'r Rhaglen Drawsnewid ar ddiwedd pob chwarter

Caiff cyllid ei ddyrannu i gefnogi'r gweithgarwch penodol a nodir yn y cynnig ac yn y llythyr cynnig grant. Caiff cyllid ei ddosbarthu yn chwarterol ymlaen llaw a gallai cyllid a gynigir gael ei ddal yn ôl neu ei adfer o brosiectau nad ydynt yn cyflawni'r gweithgarwch a nodir yn eu cynnig a'r llythyr cynnig grant. Bydd y Gronfa Trawsnewid yn mabwysiadu ymagwedd 'rheoli gweithgar' er mwyn sicrhau bod cwmpas ac amserlen gyflawni Prosiectau unigol yn gallu cael ei diwygio'n gyflym, trwy fabwysiadu'r egwyddorion cyffredinol canlynol:

- Trafod gyda thimau prosiect cyn cytuno ar amcanion lefel uchel, cerrig milltir chwarterol, a phroffil cyllido chwarterol, i'w cynnwys yn y llythyr cynnig grant. Yn arbennig bydd y sgyrsiau hyn yn herio trefniadau caffael a recriwtio i sicrhau bod rhagdybiaethau'n realistig.

- Annog arweinwyr prosiect i edrych i'r dyfodol a chodi risgiau posibl i gyflawni prosiectau yn y tîm cyflawni Cronfa Trawsnewid wrth iddo ddod yn ymwybodol ohonynt, er mwyn diwygio cwmpas ac amserlen y prosiect yn ôl yr angen.

- Annog prosiectau i ragori ar eu hamserlenni cyflawni lle mo modd, a chyfleu hynny i dîm cyflenwi'r Gronfa Trawsnewid.

- Ailddyrannu cyllid mewn ffordd ddeinamig, drwy gydol y flwyddyn, o brosiectau sy'n destun oedi i brosiectau sy'n cyflawni'n gryf ac sydd felly'n gallu hybu cyflymder a graddfa modelau newydd.

- Cyfathrebu proffil cyllido cyffredinol ac ailddyrannu cyllid mewn ffordd ddeinamig ar sail agored, dryloyw a chydweithredol, yn enwedig i arweinwyr a thimau prosiectau trwy ddigwyddiadau rhwydwaith y Gronfa Trawsnewid y mae'n ofynnol i holl arweinwyr prosiectau eu mynychu.

**Unrhyw sylwadau eraill**

Bydd y Gronfa Trawsnewid yn hybu dull gweithredu gymesur o ran cynllunio prosiectau a dogfennau sicrwydd, gan bwysleisio atebolrwydd rheoli ymarferol, i adlewyrchu'r angen i gyflawni yn unol â'r amserlen ac i ymateb yn hyblyg i heriau a chyfleoedd. Bydd arweinwyr prosiectau a sefydliadau darparu yn atebol yn uniongyrchol trwy'r llythyr cynnig grant ar gyfer Cyllid Trawsnewid, gyda chymorth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a goruchwyliaeth partneriaid ar y prosiect trawsnewid yn ei grynswth. Nid yw achos busnes llawn felly'n ofyniad ar gyfer cymorth gan y Gronfa Trawsnewid, er y gallai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sefydliadau darparu ei gwneud yn ofynnol i brosiectau Ddatblygu achosion busnes i fodloni eu gofynion eu hunain o ran sicrwydd a goruchwylio.

Rhagwelir y bydd rhai prosiectau'n 'methu â chyflawni' yn yr ystyr nad yw'r achos dros eu mabwysiadu'n ehangach yn cael ei wneud yn sgil gwerthuso, naill ai yn gyffredinol, neu mewn safleoedd penodol. Caiff arweinwyr prosiectau eu hannog yn gryf i gydnabod ac ymchwilio i 'fethiant' fel hyn, er mwyn cryfhau cyflawni gan brosiectau a/neu safleoedd eraill, ac i ddefnyddio rhwydwaith y gronfa trawsnewid fel ffordd o rannu syniadau a dysgu.

Mae'n rhaid i chi gynnal systemau ariannol, risg a rheoli priodol cyn defnyddio unrhyw ran o'r cyllid i ddarparu grant neu gaffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan drydydd parti.

**Y camau nesaf**

Gellir trefnu adborth anffurfiol ar ddatblygu cynigion trwy flwch negeseuon IGC.RhaglenDrawsnewid@llyw.cymru, a gaiff ei ddefnyddio i gyflwyno cynigion ar gyfer Cyllid Trawsnewid.